

# Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug

**Mrs Alwen M Bowen**  
Pennaeth  
Headteacher

**Mrs Michelle Barry**  
Dirprwy Bennaeth  
Deputy Headteacher



Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug  
Aberfan  
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil  
CF48 4NT

Rhyd-y-grug.cymru  
Ffôn / Telephone: 01685 351818

Tyfu Dysgu Llwyddo – Grow Learn Succeed

22.11.23

## Ymaelodi â'r Urdd

Annwyl riant/warcheidwad,

Flwyddyn nesaf, ym mis Mai, mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn teithio i'r Gogledd, i Sir Faldwyn, (27/ 5 – 1/6/2024). Rydym yn awyddus i gystadlu eto yn dilyn llwyddiannau llynedd a'r profiadau gwerthfawr a roddwyd i'n disgyblion o ran perfformio, datblygu creadigrwydd a chodi hyder. Rydym yn bwriadu cystadlu mewn nifer o gystadlaethau gan gynnwys cystadlaethau creadigol fel celf a chrefft a chystadlaethau llwyfan.

Mae'r Urdd yn agos iawn at fy nghalon i wedi blynyddoedd lawer o brofi mwynhad wrth gystadlu fy hun. Mae'n fudiad unigryw sy'n cynnig cyfleoedd eang i ddisgyblion ddatblygu sgiliau a hyder wrth gystadlu a chynrychioli eu hysgol.

Mae angen bod yn aelod er mwyn gallu manteisio ar yr holl gyfleoedd hyn. Am hynny hoffwn weld cynifer â phosib o'n disgyblion o Flwyddyn 1 hyd at flwyddyn 6 yn ymaelodi eleni. Gallwch ymaelodi trwy ddilyn y linc [www.urdd.org/ymuno](http://www.urdd.org/ymuno) ar gost o £10 (£1 os yw'ch plentyn yn derbyn talebau cinio am ddim neu Gymhorthdal Incwm arall.)

Hoffwn hefyd ofyn am eich arbenigedd chi fel rhieni neu aelodau eraill o'ch teuluoedd er mwyn cydweithio ag athrawon yr ysgol i ddysgu'r plant i ganu neu llefaru, barddoni neu arlunio -a sicrhau bod ein plant yn cystadlu mewn cynifer o gystadlaethau llwyfan, ysgrifennu a chelf a chrefft â phosib.

Mae'r Urdd yn cynnig gweithgareddau a phrofiadau hollol unigryw i blant a phobl ifanc Cymru. Yn ogystal â chystadlu yn yr Eisteddfod, caiff disgyblion hefyd y cyfle i gystadlu mewn twrnameintiau chwaraeon trwy'r flwyddyn, heb anghofio am y Cogurdd (cystadleuaeth coginio) hefyd wrth gwrs!

Os ydych yn fodlon cyfrannu peth o'ch amser a'ch arbenigedd er mwyn helpu Rhyd y Grug i gystadlu yn yr Eisteddfod, neu os am rhagor o wybodaeth, yna cysylltwch os gwelwch yn dda.

Gan edrych ymlaen at glywed yn ôl gennych,

Yn ddiffuant,

Alwen M Bowen  
Pennaeth

Nia Jenkins  
Cydlynnydd Urdd

# Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug

**Mrs Alwen M Bowen**  
Pennaeth  
Headteacher

**Mrs Michelle Barry**  
Dirprwy Bennaeth  
Deputy Headteacher



Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug  
Aberfan  
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil  
CF48 4NT

Rhyd-y-grug.cymru  
Ffôn / Telephone: 01685 351818

Tyfu Dysgu Llwyddo – Grow Learn Succeed

22.11.23

## Urdd Membership

Dear parent / guardian,

Next year, in May, the Urdd National Eisteddfod travels to the North, to Montgomeryshire, (27/5 – 1/6/2024). We are keen to compete again following last year's successes and the valuable experiences given to the pupils in terms of performing, developing creativity and raising confidence. We intend to compete in a number of competitions including creative competitions such as arts and crafts and stage competitions.

The Urdd is very close to my heart after many years of experiencing enjoyment when competing myself. It is a unique organisation that offers wide opportunities for pupils to develop skills and confidence when competing and representing their school.

You need to be a member to be able to take advantage of all these opportunities. Therefore I would like to see as many of our pupils as possible from Year 1 to Year 6 joining this year. You can join by following the link [www.urdd.org/join](http://www.urdd.org/join) at a cost of £10 (£1 if your child receives free school lunch vouchers or Income support.)

I would also like to ask for your expertise as parents or other members of your families in order to collaborate with the school's teachers to teach the children to sing or recite, write poetry or create - and ensure that our children compete in as many stage, writing and art and craft competitions as possible.

The Urdd offers completely unique activities and experiences for Wales' children and young people. As well as competing in the Eisteddfod, pupils also have the opportunity to compete in sporting tournaments throughout the year, not forgetting the Cogurdd (cooking competition) too of course!

If you are willing to contribute some of your time and expertise to help Rhyd y Grug compete in the Eisteddfod, or if you want more information, then please get in touch.

Looking forward to hearing back from you,

Yours sincerely,

Alwen M Bowen  
Headteacher

Nia Jenkins  
Urdd Coordinator